

Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Swyddi Barnwrol (Eistedd mewn Ymddeoliad – Swyddi Rhagnodedig a'u Disgrifiadau) (Cymru) 2023

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran y Cyfansoddiad a Chyfiawnder Grŵp yr Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Swyddi Barnwrol (Eistedd mewn Ymddeoliad – Swyddi Rhagnodedig a'u Disgrifiadau) (Cymru) 2023. Rwyf yn fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Mark Drakeford AS
Prif Weinidog Cymru

25 Ionawr 2023

RHAN 1

1. Disgrifiad

- 1.1. Mae Rheoliadau Swyddi Barnwrol (Eistedd mewn Ymddeoliad – Swyddi Rhagnodedig a'u Disgrifiadau) (Cymru) 2023 (y “Rheoliadau”) yn diffinio pa ddeiliaid neu gyn ddeiliaid swyddi barnwrol yn Nhribiwnlysoedd Cymru sy'n gymwys i gael eu penodi i'r swyddi barnwrol eistedd mewn ymddeoliad newydd a grewyd gan Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol 2022 (“y Ddeddf”).
- 1.2. Mae'n ofynnol i'r Rheoliadau gael eu sefydlu cyn y gall Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru arfer pwerau a roddir gan adran 124 o'r Ddeddf i benodi personau cymwys i swyddi eistedd mewn ymddeoliad am fod y cyfryw berson yn dal neu wedi dal swydd farnwrol wreiddiol gyfatebol.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

- 2.1. Nid oes unrhyw faterion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

3. Y Cefndir Deddfwriaethol

- 3.1. Cyflwynodd Deddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol 2022 newidiadau i'r oedran ymddeol gorfodol ar gyfer deiliaid swyddi barnwrol o 70 i 75 oed. Rhoes un drefn deddfwriaethol ar waith sy'n llywodraethu deiliaid swydd farnwrol sy'n eistedd mewn ymddeoliad¹. Nid yw penodiadau o'r fath yn ymestyn y tu hwnt i'r oedran ymddeol gorfodol o 75. Mae cyfres o swyddi barnwrol eistedd mewn ymddeoliad sy'n cyfateb i swyddi barnwrol gwreiddiol yn cael ei chreu gan y Ddeddf. Cytunodd y Senedd ar Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Ddeddf ar 8 Chwefror, 2022.
- 3.2. Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru yw'r awdurdod penodi² ar gyfer y swyddi barnwrol eistedd mewn ymddeoliad newydd sy'n cyfateb i'r swyddi barnwrol gwreiddiol yn Nhribiwnlysoedd Cymru³. Mae “person cymwys” i'w benodi i swydd eistedd mewn ymddeoliad yn berson sy'n dal neu sydd wedi dal swydd ragnodedig ac yn berson o'r cyfryw ddisgrifiad pellach ag a ragnodir.

¹Nid yw deiliaid swyddi barnwrol y mae telerau eu penodiad yn fater datganoledig i Senedd yr Alban yn dod o fewn cwmpas y ddarpariaeth hon.

²Adran 124(2)(e) o'r Ddeddf

³Rhestrir y swyddi barnwrol gwreiddiol yn Nhribiwnlysoedd Cymru y ceir swyddi eistedd mewn ymddeoliad cyfatebol ar eu cyfer yn Rhan 5 o Atodlen 3 i'r Ddeddf. Mae adran 59(1) o Ddeddf Cymru 2017 yn diffinio Tribiwnlysoedd Cymru.

Ystyr “rhagnodedig” yw wedi'i ragnodi mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru gyda chytundeb Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru.⁴

3.3. Mae'r Rheoliadau hyn, felly, yn rhagnodi'r swyddi barnwrol y mae'n rhaid i berson eu dal neu fod wedi'u dal cyn eu hymddeoliad i fod yn gymwys i gael eu penodi i swydd benodol eistedd mewn ymddeoliad.

3.4. Gwneir y Rheoliadau hyn o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol.⁵

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1. Roedd eistedd mewn ymddeoliad yn opsiwn a oedd ar gael yn flaenorol i farnwyr cyflogedig yn unig. Mae'r drefn newydd ar gyfer eistedd mewn ymddeoliad a roddwyd ar waith gan y Ddeddf yn unioni'r driniaeth wahaniaethol rhwng barnwyr cyflogedig a barnwyr y telir ffioedd iddynt a bwriedir iddo ddarparu hyblygrwydd i ddiwallu anghenion busnes llysoedd a thribiwnlysoedd drwy alluogi deiliaid swyddi barnwrol i eistedd mewn ymddeoliad lle mae angen gwneud hynny er mwyn sicrhau bod cyfiawnder yn cael ei weinyddu yn effeithiol.

4.2. Mae'r Ddeddf yn ymdrin â chymhwyster i eistedd mewn ymddeoliad gan gyfeirio at swyddi sy'n gymwys i gael pensiwn barnwrol. Er hynny, nid yw'r rhestr o swyddi barnwrol gwreiddiol⁶ y mae swyddi cyfatebol eistedd mewn ymddeoliad ar eu cyfer, ynddi'i hun yn pennu cymhwysedd personau i'r swyddi newydd eistedd mewn ymddeoliad. Diben y Rheoliadau hyn, felly, yw rhoi'r drefn eistedd mewn ymddeoliad ar gyfer Tribiwnlysoedd Cymru ar waith drwy ragnodi cymhwysedd personau sy'n gallu ymgeisio i bob swydd newydd eistedd mewn ymddeoliad.

4.3. Yr egwyddor lywodraethol sy'n sail i gymhwysedd fel y'i nodir yn y Rheoliadau yw y penodir fel arfer i'r swydd eistedd mewn ymddeoliad sy'n cyfateb yn uniongyrchol i'r swydd cyn-ymddeol wreiddiol. Mae dau eithriad i'r egwyddor hon:

a) Yn gyntaf, mewn perthynas â swyddi arweinyddiaeth. Nid oes unrhyw swyddi eistedd mewn ymddeoliad sy'n cyfateb i swyddi arweinyddiaeth wedi eu creu gan y Ddeddf. Ni all barnwyr arweinyddiaeth, felly, eistedd mewn ymddeoliad mewn swydd arweinyddiaeth ond yn y swydd eistedd mewn ymddeoliad sy'n cyfateb i'r swydd statudol wreiddiol sy'n sail i'w penodiad arweinyddiaeth.

b) Yn ail, mewn perthynas â Phanel Dyfarnu Cymru, i gael ei benodi i swydd “Aelod o Banel Dyfarnu Cymru (eistedd mewn ymddeoliad)” rhaid i berson fodloni'r disgrifiad penodedig. Mae effaith hynny'n

⁴ Adran 124(3) a (4)(e) o'r Ddeddf.

⁵ Adran 124(11) o'r Ddeddf.

⁶ Mae Rhan 5 o Atodlen 3 i'r Ddeddf yn rhestru'r swyddi barnwrol gwreiddiol yn Nhriviwnlysoedd Cymru y mae swydd gyfatebol eistedd mewn ymddeoliad ar eu cyfer.

golygu bod person wedi cyflawni rôl aelod o'r Panel a oedd wedi ymgymhwyso yn y gyfraith yn eu penodiad gwreiddiol. Y rheswm dros hyn yw bod y Ddeddf yn ymdrin â chymhwyster i eistedd mewn ymddeoliad trwy gyfeirio at swyddi sy'n gymwys i gael pensiwn barnwrol, ond nid yw swydd statudol wreiddiol aelod o Banel Dyfarnu Cymru yn gwahaniaethu ar wahân rhwng aelodau cyfreithiol ac aelodau eraill o'r Panel.

4.4. Mae datblygiad ad hoc Tribiwnlysoedd Cymru a'r fframweithiau statudol cyn datganoli ac ar ôl datganoli⁷ sy'n darparu eu priod gynlluniau llywodraethiant, wedi creu diffyg cydlyniaeth ar eu traws mewn perthynas â'r ffordd y mae aelodaeth o bob tribiwnlys yn cael ei chategoreiddio a'i disgrifio. Mae'r ddeddfwriaeth hyn weithiau'n disgrifio gwahanol gategoriâu o aelod o dribiwnlys gan ddefnyddio terminoleg yr ydym bellach yn ei hystyried yn hen ffasiwn o ran drafftio deddfwriaethol. Mae hyn yn wir o ran swyddi barnwrol gwreiddiol i ddau o Dribiwnlysoedd Cymru a ddiffinir gan ddefnyddio iaith nad yw'n niwtral o ran y rhywiau:

- a) Mae Atodlen 9 i Ddeddf Amaethyddiaeth 1947 yn cyfeirio at "chairman" a "deputy-chairmen" i ddiffinio swyddi barnwrol yn Nhrìbiwnlys Tir Amaethyddol Cymru. Mae'r derminoleg hon yn cael ei chario drwodd yn y Rheoliadau i ragnodi'r swyddi gwreiddiol sy'n cyfateb i swydd "Deputy Chair of the Agricultural Land Tribunal for Wales (sitting in retirement)" ("Dirprwy Gadeirydd Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru (eistedd mewn ymddeoliad)").
- b) Mae Atodlen 10 i Ddeddf Rhentu 1977 yn cyfeirio at banel o bersonau i weithredu fel "chairmen" y Pwyllgor Asesu Rhenti yng Nghymru. Mae'r derminoleg hon yn cael ei chario drwodd yn y Rheoliadau i ragnodi'r swyddi gwreiddiol sy'n cyfateb i swydd "Legal member of the Rent Assessment Committee Wales (sitting in retirement)" ("Aelod Cyfreithiol o Bwyllgor Asesu Rhenti Cymru (eistedd mewn ymddeoliad)".⁸

4.5. Oherwydd bod y fframwaith statudol ar gyfer pob Tribiwnlys Cymreig yn diffinio'r swyddi barnwrol gwreiddiol y mae'r Ddeddf yn creu swyddi cyfatebol eistedd mewn ymddeoliad mewn perthynas â hwy, mae'r derminoleg bresennol sy'n diffinio'r swyddi gwreiddiol hynny wedi'i chario drwodd i'r Rheoliadau. Mae'r dull hwn wedi'i ddilyn gan gynnwys lle y bernir bod terminoleg y ddeddfwriaeth hyn yn hen ffasiwn. Y rhesymeg dros wneud hynny yw cynnal eglurder o ran y swydd farnwrol wreiddiol

⁷O ran ystod y dyddiadau, o Ddeddf Amaethyddiaeth 1947 i Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

⁸Mae adran 173 o Ddeddf Cyfundaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002 ac adran 229 o Ddeddf Tai 2004 yn y drefn honno yn darparu bod awdurdodaeth tribiwnlys prisio lesddaliadau a thribiwnlys eiddo preswyl yn arferadwy gan bwyllgor asesu rhenti a gyfansoddwyd o dan Atodlen 10 i Ddeddf Rhentu 1977. Mae'r cyfeiriad at "Bwyllgor Asesu Rhenti Cymru" yn y Rheoliadau felly hefyd yn cyfeirio at Dribiwnlys Prisio Lesddaliadau Cymru a Thribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru.

ragnodedig mae'n rhaid i berson ei dal neu fod wedi'i dal i fod yn gymwys i gael ei benodi i'r swydd gyfatebol eistedd mewn ymddeoliad.

5. Ymgynghori

- 5.1. Cyhoeddwyd ymgynghoriad ar godi'r oedran ymddeol gorfodol ar gyfer deiliaid swyddi barnwrol datganoledig ar 7 Medi 2020 ac fe ddaeth i ben ar 30 Tachwedd 2020.⁹ Roedd yn cyd-fynd yn rhannol ag ymgynghoriad gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar godi'r oedran ymddeol gorfodol i bob deiliad swydd farnwrol arall yng Nghymru a Lloegr. Rhoddodd y Ddeddf oedran ymddeol gorfodol o 75 ar waith, a chyfundrefn ar gyfer eistedd mewn Ymddeoliad gyda phenodiadau nad ydynt yn ymestyn y tu hwnt i'r oedran ymddeol gorfodol.
- 5.2. Gwneir y Rheoliadau gyda chytundeb Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru ac ymgynghorwyd â'r Llywydd wrth iddynt gael eu paratoi. Ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad pellach mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn sy'n weinyddol ac yn dechnegol eu natur.

Rhan 2 – Aseiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)

Mae Aseiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gynnal ar gyfer y Rheoliadau.

6. Yr opsiynau

- 6.1. Cyflwynodd y Ddeddf drefn newydd ar gyfer eistedd mewn ymddeoliad i unioni'r driniaeth wahaniaethol a oedd yn bodoli cyn hynny rhwng barnwyr cyflogedig a barnwyr y telir ffioedd iddynt, sef lle y gallai barnwyr cyflogedig ond nid barnwyr y telir ffioedd iddynt eistedd mewn ymddeoliad. Mae'r drefn eistedd mewn ymddeoliad o dan y Ddeddf yn creu categori newydd o swydd farnwrol sy'n galluogi deiliaid swydd farnwrol (boed yn gyflogedig neu'n cael ffi) i ymddeol o'u swydd farnwrol wreiddiol, tynnu eu pensiynau barnwrol, a chael eu penodi i swydd eistedd mewn ymddeoliad y telir ffi ar ei chyfer.
- 6.2. Mae'r Ddeddf yn ymdrin â chymhwyster deiliaid swydd farnwrol i eistedd mewn ymddeoliad gan gyfeirio at swyddi sy'n gymwys i gael pensiwn barnwrol. Er hynny, nid yw'r rhestr o swyddi barnwrol gwreiddiol yn Nhrifiwnlysoedd Cymru y mae swyddi cyfatebol eistedd mewn ymddeoliad ar eu cyfer¹⁰, ynddi'i hun yn pennu cymhwysedd personau i gael eu penodi i swyddi cyfatebol eistedd mewn ymddeoliad.

⁹ Gweler [Oedran ymddeol gorfodol barnwrol: Swyddi Barnwrol yng Nghymru 2020 \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)

¹⁰ Mae Rhan 5 o Atodlen 3 i'r Ddeddf yn rhestru'r swyddi barnwrol gwreiddiol yn Nhrifiwnlysoedd Cymru y mae swydd gyfatebol eistedd mewn ymddeoliad ar eu cyfer.

- 6.3. Nodir y meini prawf cymhwysedd ar gyfer penodiad i swydd eistedd mewn ymddeoliad yn Nhrifiwnlysoedd Cymru yn y Rheoliadau. Mae'r Rheoliadau yn rhagnodi'r swydd farnwrol wreiddiol y mae rhaid i berson ei dal neu fod wedi'i dal i fod yn gymwys i gael ei benodi i swydd gyfatebol eistedd mewn ymddeoliad.
- 6.4. Rhaid i reoliadau sy'n pennu meini prawf cymhwysedd ar gyfer penodi gael eu gwneud felly er mwyn i'r gyfundrefn eistedd mewn ymddeoliad fod ar waith, gan alluogi penodiadau i gael eu gwneud i swyddi eistedd mewn ymddeoliad yn Nhrifiwnlysoedd Cymru Mae dau opsiwn wedi cael eu hystyried yn natblygiad yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol:
- a) *Opsiwn 1*: cynnal busnes yn ôl yr arfer o ran diwallu anghenion busnes Tribiwnlysoedd Cymru drwy beidio â gwneud y Rheoliadau; a
 - b) *Opsiwn 2*: gwneud y Rheoliadau sy'n pennu'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer penodi i swyddi eistedd mewn ymddeoliad.
- 6.5. Mae *Opsiwn 1* yn golygu y byddai Tribiwnlysoedd Cymru'n parhau i gael adnoddau drwy'r adnodd barnwrol presennol yn unig. Y rheswm dros hyn yw nad oes modd rhoi'r drefn eistedd mewn ymddeoliad ar waith heb y Rheoliadau.
- 6.6. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn glir nad oes hawl i ddeiliaid swydd farnwrol gael eu penodi i swydd eistedd mewn ymddeoliad. Ni ellir penodi ond pan fo achos busnes bod penodiad o'r fath yn hwyluso gwaredu busnes yn y llys neu'r tribiwnlys y penodir person iddo.¹¹ Bwriedir i'r drefn, felly, fod yn ategol i benodi i swyddi barnwrol gwreiddiol, a defnyddio swyddi barnwrol gwreiddiol, at ddibenion diwallu anghenion busnes Tribiwnlysoedd Cymru. Mae swyddi eistedd mewn ymddeoliad, felly, yn fodd i gydategu'r adnodd barnwrol presennol i ddiwallu anghenion busnes Tribiwnlysoedd Cymru drwy ddiwallu unrhyw anghenion uniongyrchol, tymor byr a all godi y mae angen adnoddau ar eu cyfer ond na ellir eu bodloni drwy ddefnyddio'r garfan o ddeiliaid swyddi barnwrol nad ydynt wedi ymddeol.
- 6.7. Ni fyddai'r adnoddau hyblyg a gynigir gan y drefn statudol newydd ar gyfer eistedd mewn ymddeoliad ond ar gael i Dribiwnlysoedd Cymru o dan *Opsiwn 2*. Y rheswm dros hyn yw am fod y Rheoliadau yn pennu'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer penodi i swyddi eistedd mewn ymddeoliad.

7. Costau a manteision

- 7.1. Fel y nodir ym mharagraff 6.6, bwriedir i'r drefn eistedd mewn ymddeoliad ddarparu adnoddau hyblyg i ddiwallu anghenion busnes Tribiwnlysoedd Cymru lle na ellir bodloni hynny drwy ddefnyddio'r garfan o ddeiliaid swyddi barnwrol nad ydynt wedi ymddeol. Mae anghenion busnes Tribiwnlysoedd Cymru yn cael eu harwain gan y galw ac maent yn seiliedig ar nifer y

¹¹ Adran 124(1)(a) o'r Ddeddf.

ceisiadau a wneir i bob tribiwnlys unigol. Nodir nifer y ceisiadau a ddaeth i law Tribiwnlysoedd Cymru yn y blynyddoedd ariannol 2018-2019 i 2021-2022 yn y tabl isod.

Nifer y ceisiadau i Dribiwnlysoedd Cymru

Tribiwnlys Cymreig	Blynyddoedd Ariannol			
	2018-2019	2019-2020	2020-2021	2021-2022
Y Tribiwnlys Tir Amaethyddol	29	22	13	20
Y Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl	2,046	1,943	1,790	1,840
Y Tribiwnlys Eiddo Preswyl	176	112	106	113
Y Tribiwnlys Addysg ¹²	139	172	116	151
Y Tribiwnlys Dyfarnu	2	2	4	10
Tribiwnlys y Gymraeg	3	16	13	3

7.2. Cyfanswm y gwariant wrth weinyddu Tribiwnlysoedd Cymru yn ystod y blynyddoedd ariannol diweddaraf sef 2020-2021 a 2021-22 oedd £3,565,246 a £4,092,047 yn eu trefn ac fe gyflawnwyd busnes pob tribiwnlys gan ddefnyddio'r garfan bresennol o aelodau'r tribiwnlys.

7.3. O dan Opsïwn 1 ni fyddai adnoddau hyblyg y drefn eistedd mewn ymddeoliad yn cael eu defnyddio ac ni fyddai cost ychwanegol ynghlwm wrth ddiwallu anghenion busnes Tribiwnlysoedd Cymru.

7.4. O dan Opsïwn 2 ni fyddai'r adnoddau hyblyg a gynigir gan y drefn eistedd mewn ymddeoliad ond yn cael eu defnyddio ond i ddiwallu anghenion busnes Tribiwnlysoedd Cymru na ellir eu bodloni drwy ddefnyddio'r garfan o ddeiliaid swyddi barnwrol nad ydynt wedi ymddeol. Ac eithrio costau ychwanegol bach iawn sy'n ymwneud â hyfforddiant (mae paragraff 7.5 yn cyfeirio), rydym yn asesu bod goblygiadau cost Opsïwn 2 yn niwtral i raddau helaeth o ran y gwariant cyffredinol ar gyfer gweinyddu Tribiwnlysoedd Cymru, am y rhesymau a ganlyn:

- a) Mae gwaith Tribiwnlysoedd Cymru a chostau eu gweinyddu yn cael eu harwain gan y galw yn seiliedig ar nifer y ceisiadau a wneir i'r tribiwnlysoedd;
- b) bwriedir i'r adnodd eistedd mewn ymddeoliad gael ei defnyddio i ateb y galw na ellir ei fodloni trwy ddefnyddio'r garfan o ddeiliaid swyddi barnwrol nad ydynt wedi ymddeol;
- c) telir ffioedd i ddeiliaid swyddi eistedd mewn ymddeoliad a byddai cost eu defnyddio i ateb y galw, felly, yn cyfateb i'r gost a gâi ei hysgwyddo os oedd deiliaid swyddi barnwrol nad ydynt wedi ymddeol ar gael i eistedd; a

¹² Newidiodd Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru ei enw yn ffurfiol i Dribiwnlys Addysg Cymru ar 1 Medi 2021, yn unol ag adran 91 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol ac Addysg (Cymru) 2018.

- d) nid yw penodiad i swydd eistedd mewn ymddeoliad yn gwarantu diwrnodau eistedd i deiliad y swydd; mae eistedd yn dibynnu ar ddiwallu anghenion busnes Tribiwnlysoedd Cymru.

7.5. Er y bydd personau sy'n cael eu penodi i swyddi eistedd mewn ymddeoliad yn aelodau tribiwnlys profiadol, bydd ganddynt ofynion hyfforddiant. Rydym yn rhag-weld y byddant yn cael mynediad at hyfforddiant diweddarau a drefnir yn flynyddol fel rheol ar gyfer y garfan o aelodau tribiwnlysoedd a byddant yn cael eu talu yn ôl cyfradd y ffioedd a delir iddynt am fynychu hyfforddiant o'r fath. Rydym yn rhag-weld y bydd y costau ychwanegol yn fach iawn. Oherwydd bod penodiadau eistedd mewn ymddeoliad yn seiliedig ar anghenion busnes mewn amgylchiadau lle nad yw deiliaid swyddi barnwrol sydd heb ymddeol yn gallu bodloni'r galw, rydym yn rhag-weld mai ychydig iawn o bobl fydd yn cael eu penodi i eistedd mewn ymddeoliad. Rydym yn amcangyfrif, felly, gost flynyddol ychwanegol o tua £2K yn seiliedig ar 4 neu 5 aelod sy'n eistedd mewn ymddeoliad yn mynychu diwrnod blynyddol o hyfforddiant ac yn cael tâl cydnabyddiaeth yn seiliedig ar gyfraddau ffioedd cymwys.

7.6. Ni ellir gwireddu manteision adnoddau hyblyg i ddiwallu anghenion busnes Tribiwnlysoedd Cymru a gynigir gan y gyfundrefn eistedd mewn ymddeoliad ond os gwneir y Rheoliadau. Nid yw'r manteision yn cronni o dan Opsïwn 1 ond maent yn cronni o ran Opsïwn 2.

8. Asesu'r gystadleuaeth

8.1. Nid yw'r Rheoliadau yn cael unrhyw effaith ar ba mor gystadleuol yw busnesau, elusennau na'r sector gwirfoddol.

9. Adolygiad ôl-weithredu

9.1. Ni chynigir unrhyw fonitro nac adolygu penodol ar y Rheoliadau. Bydd diwrnodau eistedd deiliaid swyddi eistedd mewn ymddeoliad yn cael eu monitro o safbwynt gweithredol yn yr un modd â diwrnodau eistedd i aelodau eraill o Dribiwnlysoedd Cymru.